# Adolygiad o'r Trefniadau Llywodraethu Ansawdd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Blwyddyn archwilio: 2019

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2714A2021

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn rhan o'r gwaith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Mae gan yr Archwilydd Cyffredinol ystod eang o swyddogaethau archwilio a swyddogaethau cysylltiedig, gan gynnwys archwilio cyfrifon cyrff GIG Cymru, ac adrodd i'r Senedd ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y sefydliadau hynny o ran eu defnydd o'u hadnoddau. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae gan y ddau ohonynt eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2022

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu rhinwedd unigol, nac unrhyw drydydd parti, mewn cysylltiad â'r adroddiad hwn.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r ymarfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Negeseuon allweddol 5

Argymhellion 6

Adroddiad manwl

Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion 9

Diwylliant sefydliadol a gwella ansawdd 12

Strwythurau a phrosesau llywodraethu 20

Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd 25

Atodiadau

Atodiad 1 — ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 28

Atodiad 2 — canfyddiadau arolwg y staff 37

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Dylai ansawdd fod wrth wraidd pob agwedd ar ofal iechyd ac mae rhoi ansawdd a diogelwch cleifion yn anad popeth arall yn un o'r gwerthoedd craidd sy'n sail i'r GIG yng Nghymru. Gall gofal o ansawdd gwael fod yn gostus hefyd o ran niwed, gwastraff ac amrywiad. Mae angen rhoi fframwaith llywodraethu cadarn ar waith ar sefydliadau'r GIG a'r unigolion sy'n gweithio ynddynt er mwyn helpu i sicrhau y darperir gofal iechyd diogel, effeithiol ac o ansawdd uchel. Un o ddibenion allweddol y trefniadau 'llywodraethu ansawdd' hyn yw helpu sefydliadau a'u staff i fonitro safonau gofal, gan eu gwella yn ôl yr angen.

2 Atgyfnerthwyd y sbardun i wella ansawdd mewn strategaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol olynol dros y ddau ddegawd diwethaf. Ym mis Mehefin 2020, daeth Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (y Ddeddf) yn gyfraith. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r ddyletswydd i sicrhau gwelliannau ansawdd ar draws y system, yn ogystal â rhoi dyletswydd ar gyrff y GIG i fod yn ddidwyll, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn agored ac yn onest pan fo pethau'n mynd o chwith er mwyn galluogi dysgu. Mae'r Ddeddf yn nodi bod ansawdd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i effeithiolrwydd a diogelwch gwasanaethau iechyd a phrofiadau'r defnyddwyr gwasanaeth.

3 Mae'n rhaid i ansawdd a diogelwch dreiddio i bob agwedd ar y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau, gan fod yn amlwg yng nghynlluniau tymor canolig integredig cyrff y GIG. Disgwylir i gyrff y GIG fonitro ansawdd a diogelwch ar lefel y bwrdd a thrwy'r holl leoliadau gwasanaethau, partneriaethau a gofal. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein gwaith Asesu Strwythuredig blynyddol ledled Cymru wedi tynnu sylw at heriau amrywiol, gan gynnwys yr angen i wella'r llifau sicrwydd o ran ansawdd a diogelwch, goruchwylio archwiliadau clinigol, a'r gwaith o olrhain canfyddiadau ac argymhellion rheoleiddio ac arolygu. Bu pryderon proffil uchel hefyd ynghylch ansawdd gofal a dulliau llywodraethu cysylltiedig mewn cyrff GIG unigol.

4 O ystyried y cyd-destun hwn, mae'n bwysig bod byrddau'r GIG, y cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol yn cael sicrwydd bod trefniadau llywodraethu o ansawdd yn effeithiol a bod cyrff y GIG yn parhau i ganolbwyntio'n ddigonol ar ansawdd wrth ymateb i bandemig COVID-19. Mae fframwaith cynllunio presennol GIG Cymru yn adlewyrchu'r angen i ystyried y niwed uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â COVID-19. Mae'n bwysig bod cyrff y GIG yn sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu o ansawdd yn cefnogi goruchwyliaeth sefydliadol dda o'r niwed hyn yn rhan o'u dull ehangach o sicrhau gwasanaethau diogel ac effeithiol.

5 Archwiliodd ein harchwiliad a yw trefniadau llywodraethu'r sefydliad yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel. Canolbwyntiwyd ar y dull gweithredol a chorfforaethol o lywodraethu ansawdd, y diwylliant ac ymddygiad sefydliadol, strategaeth, strwythurau a phrosesau, llifau gwybodaeth ac adrodd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau ein gwaith ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (y Bwrdd Iechyd) a gynhaliwyd rhwng

mis Mawrth a mis Hydref 2021. Er mwyn profi'r safbwynt 'o'r llawr i'r bwrdd', gwnaethom archwilio'r trefniadau ar gyfer yr Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig sydd yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys. Gwnaethom ni gynnal arolwg staff yn yr is-adran hon hefyd.

6 Er nad adolygiad ar y cyd yw hwn, rydym wedi ymgysylltu'n agos ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wrth gynllunio a chyflwyno'r gwaith hwn. Mae cydweithwyr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cymryd rhan amrywiol mewn gweithgareddau sydd â'r nod o rannu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n deillio o'r gwaith hwn a gweithgareddau adolygu allanol cysylltiedig eraill. Yn unol â gofynion deddfwriaethol COVID-19 ar adeg y gwaith maes, gwnaed yr holl waith archwilio o bell.

# Negeseuon allweddol

7 Ar y cyfan, canfuom er bod **trefniadau llywodraethu ansawdd corfforaethol y Bwrdd Iechyd yn dangos nifer o gryfderau, fod gwendidau sylweddol yn y trefniadau yn gorfforaethol ac mewn timau gweithredol, sy'n cyfyngu ar allu'r Bwrdd Iechyd i wybod a yw'r gwasanaethau y mae'n eu darparu yn ddiogel ac yn effeithiol.**

8 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mynegi ei flaenoriaethau ansawdd a diogelwch blynyddol ac mae trefniadau corfforaethol da ar gyfer monitro risgiau. Mae adnoddau penodol ar gyfer gwella ansawdd a defnyddir timau lleol yn dda ar lefel weithredol i gipio profiadau cleifion. Mae gwerthoedd ac ymddygiad y Bwrdd Iechyd wedi eu hen sefydlu, gan annog diwylliant agored a dysgu, ac mae fframwaith ansawdd a diogelwch yn nodi'r prosesau ar gyfer sicrwydd. Derbynnir cyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch ar lefel y gweithredwyr a'r lefel weithredol, ac mae trefniadau pwyllgorau sefydledig ar waith i ddarparu gwaith craffu a sicrwydd.

9 Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau ar gyfer monitro blaenoriaethau ansawdd wedi eu cwblhau eto. Mae adnoddau i gefnogi'r broses llywodraethu ansawdd yn gorfforaethol yn gyfyngedig. Mae adnoddau ychwanegol wedi eu hymwreiddio yn y grwpiau gwasanaeth, ond gweithio ar wahân y mae'r rhain ac mae i hyn y risg o wanhau'r cyfrifoldeb a dderbynnir yn yr is-adrannau. Mae angen cynyddu amlygrwydd ac amlder archwiliadau a marwolaethau clinigol ar lefel pwyllgor, ac mae diffyg dull cydgysylltiedig a strategol o gipio profiadau cleifion. Er bod trefniadau risg gorfforaethol da, mae problemau gyda'r cofrestrau risg weithredol a'r llifau gwybodaeth. Mae ymwybyddiaeth o'r gwerthoedd a'r ymddygiad yn gymysg, ac nid yw'r staff yn cydnabod diwylliant agored a dysgu bob amser, gyda phryderon na fydd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu mewn ymateb i bryderon bob amser. Mae cydymffurfedd ag arfarniadau yn isel a gellid gwneud mwy i hybu ac ymwreiddio dysg ar draws y sefydliad.

10 Yr arweinwyr nyrsio sy'n bennaf gyfrifol am gyflawni'r agenda ansawdd a diogelwch, ac mae nifer o newidiadau mewn personél ar lefel y gweithredwyr a'r lefel weithredol sydd wedi cyflwyno heriau. Er gwaethaf datblygiad y fframwaith,

nid yw wedi ei weithredu ac mae gwendidau mewn dulliau llywodraethu ansawdd ar lefel weithredol yn arwain at golli pryderon am ansawdd, megis y rhai a amlygwyd yn yr adroddiad diweddar ar wasanaethau cardiaidd. Mae diffyg cefnogaeth i ddadansoddi data, dangosfyrddau a dealltwriaeth o ansawdd clir am ddata yn effeithio ar y cyfrifoldeb gweithredol a dderbynnir a'r broses monitro perfformiad. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r gwendidau ac mae wedi bod yn cynnal ei adolygiad llywodraethu mewnol ei hun.

## Argymhellion

11 Manylir ar yr argymhellion sy'n deillio o'r archwiliad hwn yn **Arddangosyn 1**. Ceir crynodeb o ymateb rheolwyr y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion hyn yn **Atodiad 1**.

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| **Argymhellion** |
| --- |
| **Rheoli risgiau**<br>A1 Mae'r dull a ddefnyddir gan reolwyr gweithredol i reoli risgiau yn anghyson ac mae cofrestrau risgiau yn anghyflawn yn aml, gan golli camau lliniaru cadarn. Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei reolaeth o risgiau ar lefel weithredol drwy:<br>a) ddarparu hyfforddiant i reolwyr ar draws y strwythur gweithredol i'w galluogi i nodi'n glir y risgiau y maent yn gyfrifol amdanynt a diweddaru cofrestrau risgiau yn unol â pholisïau corfforaethol; a<br>b) sicrhau y creffir yn ddigonol ar gofrestrau risgiau, ar lefel weithredol ac yn y grŵp rheoli risgiau. |
| **Datblygu cynllun archwilio clinigol**<br>A2 Yn ystod ein hadolygiad, nid oedd modd i ni gael copi o gynllun archwilio clinigol diweddaraf y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun archwilio clinigol ar gyfer 2021–22 sy'n cwmpasu archwiliadau cenedlaethol mandadol ac archwiliadau lleol sy'n cael eu llywio gan feysydd risg. Dylai'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a dylid monitro'r cynnydd yn rheolaidd wrth ei gyflawni. |

**Argymhellion**

**Amlder adrodd ar archwiliadau a marwolaethau clinigol**

A3 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol sy'n rhoi sicrwydd ar ganlyniadau archwiliadau a marwolaethau clinigol, ond ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo drwy'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch ac yn ei rinwedd ei hun, dim ond unwaith y flwyddyn y caiff ei hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r amlder hwn fel yr adroddir yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth gyflawni'r cynllun archwilio clinigol, a dysg gysylltiedig o adolygiadau marwolaethau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn amlach.

**Gwerthoedd ac ymddygiad**

A4 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig sy'n hybu diwylliant agored a dysgu, ond nid yw'r staff yn ymwybodol o'r gwerthoedd ac ymddygiad bob amser, ac mae rhai aelodau o staff nad ydynt yn cydnabod diwylliant sy'n hybu dysgu o wallau bob amser. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) adnewyddu yr ymwybyddiaeth sefydliadol o'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad, fel bod y gwerthoedd ar reng flaen popeth y mae'r staff yn ei wneud yn y Bwrdd Iechyd; ac

b) ymgymryd â gwaith i ddeall pam mae rhai aelodau o staff yn teimlo nad yw'r Bwrdd Iechyd yn annog adrodd gwallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac nad yw'n gweithredu mewn ymateb i bryderon.

**Adolygiad Arfarnu Perfformiad a Datblygu**

A5 Canfu ein gwaith fod cydymffurfedd ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a Datblygu yn y grwpiau gweithredol a archwiliwyd gennym yn isel. Er ein bod yn cydnabod pwysau COVID-19 ar allu'r Bwrdd Iechyd i wella perfformiad yn y maes hwn, mae'r adolygiadau hyn yn agwedd bwysig ar ddatblygiad y staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu cynllun i wella perfformiad sy'n nodi pryd y gellir cyflawni cydymffurfedd yn llawn. Mae angen monitro'r cynllun hwn ar lefel y Gweithredwyr a'r pwyllgor.

**Argymhellion**

**Dylunio gweithredol er mwyn cefnogi llywodraethu effeithiol**

A6 Er gwaethaf y gwaith o ddatblygu Fframwaith Ansawdd a Diogelwch ym mis Ionawr 2021, nid yw wedi ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd eto. Mae'r fframwaith yn nodi'r broses a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau ei hun bod gwasanaethau o ansawdd uchel a'u bod nhw'n ddiogel i bawb. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) adnewyddu'r fframwaith yng ngoleuni dysg o bandemig COVID-19;
b) ail-lansio'r fframwaith, a rhoi eglurder ar y trefniadau llywodraethu ansawdd sydd i'w disgwyl yn y Bwrdd Iechyd; ac
c) monitro cydymffurfedd â gweithredu'r fframwaith ar draws y sefydliad.

**Sicrhau y derbynnir cyfrifoldeb ar y cyd am yr agenda ansawdd a diogelwch**

A7 Canfu ein gwaith, er bod cyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd a diogelwch ymhlith y tîm gweithredol, fod gorddibyniaeth ar nyrsys arwain i hybu'r agenda ansawdd mewn is-adrannau. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio sicrhau bod gweithwyr proffesiynol clinigol eraill yn y timau gweithredol yn cymryd swyddogaeth weithredol mewn trefniadau llywodraethu ansawdd.

**Adnoddau i gefnogi llywodraethu o ansawdd**

A8 Prin yw'r adnoddau corfforaethol i gefnogi llywodraethu o ansawdd ac mae adnoddau gweithredol yn gweithio ar wahân. Dylai'r Bwrdd Iechyd:

a) adolygu adnoddau a gofynion cyfredol i gefnogi'r dasg o wella ansawdd ar lefel gorfforaethol, grŵp gwasanaeth ac ar lefel rhanbarthol; a
b) ceisio gwneud y mwyaf o botensial yr adnoddau gweithredol drwy ddatblygu cyfleoedd i ddod ag adnoddau at ei gilydd, naill ai drwy drefniadau rhwydwaith neu newidiadau mewn llinellau atebolrwydd.

# Adroddiad manwl

## Strategaeth sefydliadol ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion

12 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae blaenoriaethau sydd wedi eu diffinio’n glir ar gyfer ansawdd a diogelwch cleifion, ac i ba raddau y llinierir y risgiau i’w cyflawni nhw’n effeithiol.

13 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi mynegi ei flaenoriaethau ansawdd a diogelwch blynyddol, ond nad yw’r trefniadau monitro wedi eu cwblhau eto, sy’n gwneud craffu ar yr hyn a gyflawnir yn anodd. Mae gan y Bwrdd Iechyd drefniadau da ar gyfer adolygu risgiau ar lefel gorfforaethol, ond mae’r gwaith rheoli risgiau ar lefel weithredol yn anghyson.**

### Blaenoriaethau ansawdd a diogelwch cleifion

14 **Mae’r Bwrdd Iechyd wedi mynegi ei flaenoriaethau ansawdd a diogelwch blynyddol ac wedi ymrwymo’n llwyr i wella a chyflawni effaith yn y meysydd allweddol hyn, er nad yw’r trefniadau monitro wedi eu cwblhau eto.**

15 Yn rhan o Gynllun Blynyddol y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2021–22, nodwyd y pum blaenoriaeth safon a diogelwch canlynol ynghyd â’r hyn y gall ei gyflawni, y modd o gyflawni’r nod a’r canlyniad a fwriadwyd.

- **Sepsis** — Cynyddu nifer y cleifion sy’n cael eu hadnabod, eu hasesu, a’u trin am Sepsis.
- **Gofal Diwedd Oes —** Pob claf i gael ei adnabod ac i dderbyn Gofal Diwedd Oes ni waeth ble yn y Bwrdd Iechyd maent yn cael gofal/triniaeth.
- **Atal hunanladdiad —** Gostyngiad cyffredinol yn nifer yr achosion o hunanladdiad ar draws y Bwrdd Iechyd. Gwasanaeth sy’n cymryd hunanladdiad o ddifrif ac sy’n ymwreiddio’r wybodaeth o adnabod a rheoli hunanladdiad a hunan-niweidio ar draws y Bwrdd Iechyd.
- **Atal a rheoli heintiau —** Lleihau’r Heintiau a Ddelir wrth Gael Gofal Iechyd ar draws y Bwrdd Iechyd. Gostyngiad mewn meddyginiaethau gwrthficrobaidd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru.
- **Cwympiadau —** Lleihau lefelau’r cwympiadau niweidiol a’r marwolaethau sy’n gysylltiedig â chwympiadau niweidiol ar draws y Bwrdd Iechyd (gan gynnwys mewn Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Eilaidd).

16 Er ei bod yn amlwg bod llawer mwy o feysydd y gellid bod wedi eu nodi, mae’r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu canolbwyntio ar nifer llai na’r blynyddoedd blaenorol er mwyn sicrhau y gellir eu cyflawni. Mae’r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau y bydd rhaglenni gwaith eraill yn dal i gael eu datblygu drwy brosesau sydd eisoes yn bodoli megis y safonau Iechyd a Gofal.

17 Roedd rhanddeiliaid mewnol allweddol yn rhan o’r broses o nodi’r blaenoriaethau hyn. Gan eu cwmpasu gan gyfarwyddwyr gweithredol i ddechrau, cafodd y

blaenoriaethau eu cyflwyno a'u trafod mewn gweithdy rhithwir gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Rhoddodd hyn gyfle i gyfarwyddwyr gweithredol, aelodau o driwriaeth y grŵp gwasanaeth, rheolwyr ansawdd/llywodraethu'r grŵp gwasanaeth, timau corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch lywio'r blaenoriaethau. Yn dilyn y gwaith hwn, nodwyd yn glir y rhesymeg dros bob blaenoriaeth safon mewn dogfen a gafodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ym mis Mawrth 2021, ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd yn sgil hynny yn rhan o Gynllun Blynyddol 2021–22 y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2021. Er nad oedd rhanddeiliaid allanol fel y Cyngor Iechyd Cymuned yn rhan o'r broses o ffurfio'r blaenoriaethau, ymgynghorwyd â nhw ar y cynllun blynyddol yn ei gyfanrwydd.

18 Fodd bynnag, er bod y blaenoriaethau ansawdd hyn yn ddarostyngedig i broses gynllunio a gweithredu 100 diwrnod y Bwrdd Iechyd[1] er mwyn sicrhau y gellir eu cyflawni, nid oedd y trefniadau ar gyfer monitro'r dasg o'u cyflawni wedi eu cwblhau. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd trefniadau'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch na'r trefniadau lefel gweithredol yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys ac Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig wedi eu cytuno arnynt eto. Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ceisio cael sicrwydd ar gyflawni'r cynllun ac yn peri risg efallai na fydd y blaenoriaethau yn cael eu cyflawni.

19 Mae gan y Bwrdd Iechyd broses Asesu'r Effaith ar Ansawdd sefydledig. Mae'r broses yn ystyried effaith unrhyw newidiadau ac ailgynllunio posibl i wasanaethau ar ansawdd a diogelwch. Mae'r offer sgrinio ar gyfer Asesu'r Effaith ar Ansawdd yn cael eu cwblhau gan grwpiau gwasanaeth ac maent yn cael eu hasesu gan y Panel Asesu'r Effaith ar Ansawdd sy'n cwrdd bob mis.

## Rheoli risgiau

20 **Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg gorfforaethol, ac mae'r gofrestr risgiau yn cael ei monitro'n rheolaidd ar lefel y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae polisi rheoli risgiau a grŵp sy'n nodi'r dull gweithredu ar gyfer timau gweithredol, ond mae angen gwella'r broses o reoli risgiau ar lefel weithredol.**

21 Mewn adolygiadau asesu strwythuredig blaenorol, gwnaethom dynnu sylw at ddiffyg Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan ei fod wedi bod ar ffurf ddrafft ers cryn amser. Mae hyn wedi cael sylw bellach. Ym mis Gorffennaf 2021, derbyniwyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd newydd gan y Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd. Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cynnwys saith prif risg i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd Iechyd. Mae sgôr sicrwydd yn nodi pa amcanion strategol sydd mewn perygl oherwydd annigonolrwydd rheolaethau neu oherwydd nad oes digon

[1] Cylch cynllunio chwarterol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd.

sicrwydd yn eu cylch. Mae’r Pwyllgor Archwilio yn monitro Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sef dogfen ailadroddol a fydd yn cael ei diweddaru’n barhaus.

22 Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm rheoli risgiau pwrpasol (6.4 WTE, un swydd wag) sy’n gyfrifol am reoli’r fframwaith ac am hwyluso a chefnogi rheolwyr y grwpiau gwasanaeth i fonitro ac adrodd ar risgiau. Maen nhw’n darparu cymorth ar reoli Cofrestr Risgiau y Bwrdd Iechyd ac yn cefnogi’r gwaith o reoli system Datix lle mae risgiau’n cael eu cofnodi, gan gynnwys darparu rhywfaint o hyfforddiant. Yn ddiweddar, mae’r Bwrdd Iechyd wedi penodi Pennaeth Risg a Sicrwydd Cynorthwyol i helpu i gryfhau cefnogaeth y tîm corfforaethol ar gyfer rheoli risgiau yn y sefydliad. Mae’r tîm rheoli risgiau yn darparu hyfforddiant i’r Bwrdd yn ogystal â staff gweithredol a chorfforaethol ac mae wedi cyflwyno hyfforddiant i grwpiau gwasanaeth yn ddiweddar. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd ein maes olrhain, Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys, wedi cael yr hyfforddiant.

23 Yn ystod 2021 ac mewn ymateb i COVID-19, bu’r Bwrdd Iechyd yn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg gorfforaethol. Yn dilyn dechrau pandemig COVID-19, cytunodd aelodau’r Bwrdd y byddai’r sgôr parodrwydd i dderbyn risg yn cynyddu i 20 ac yn uwch am gyfnod cychwynnol o dri mis. Mae’r parodrwydd i dderbyn risg o 20 ac uwch wedi aros ar waith ers dechrau’r pandemig. Mae’r Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Archwilio, a’r Bwrdd yn adolygu’r trefniadau’n rheolaidd.

24 Mae cofnodion Cofrestr Risgiau y Bwrdd Iechyd yn cael eu haseinio i arweinydd gweithredol ac mae’r risg hefyd yn cael ei haseinio i’r Bwrdd neu bwyllgor goruchwylio penodedig. Yn ddiweddar, cafodd cyfarwyddwyr gweithredol y dasg o adolygu ac adnewyddu pob cofnod ar Gofrestr Risgiau y Bwrdd Iechyd sy’n fwy na’r parodrwydd i dderbyn risg ac o adolygu’r camau lliniaru. Ym mis Medi 2021, roedd gan Gofrestr Risgiau y Bwrdd Iechyd 39 o risgiau ac roedd gan 21 ohonynt sgoriau risg o 20 neu uwch.

25 Ar adeg ein gwaith, roedd 15 o 39 (38%) o risgiau ar y gofrestr risgiau corfforaethol yn gysylltiedig ag ansawdd ac fe’u neilltuwyd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar gyfer gwaith craffu a sicrwydd. Mae’r pwyllgor yn derbyn adroddiad risgiau a’r gofrestr risgiau sydd wedi eu haseinio iddynt bob dau fis. Mae’r aelodau annibynnol yn craffu ar risgiau yn dda, ond mae’n bosibl bod angen rhywfaint o hyfforddiant gloywi mewn cysylltiad â’r broses cynyddu risgiau.

26 Yn gorfforaethol, mae Grŵp Rheoli Risgiau yn cwrdd bob chwarter er mwyn sicrhau bod system rheoli risgiau priodol a chadarn ar waith ac yn gweithio drwy’r sefydliad. Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yw Cadeirydd y grŵp hwn ac mae cynrychiolaeth o bob grŵp gwasanaeth. Mae’n adrodd i’r Pwyllgor Archwilio a’r Bwrdd Rheoli bob chwarter. Hefyd, mae Panel Craffu ar Risgiau yn cwrdd yn fisol ac mae’n gyfrifol am gynghori’r Bwrdd Rheoli ar gymedroli risgiau newydd a chynyddu a lleihau risgiau ar Gofrestr Risgiau y Bwrdd Iechyd a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol sydd hefyd yn cadeirio’r cyfarfodydd hyn.

27 Yn rhan o’n gwaith, gwnaethom adolygu’r cofrestrau risgiau a’r prosesau sydd ar waith ar lefel grŵp gwasanaeth ac is-adrannol. Ar lefel grŵp gwasanaeth, caiff y

risgiau o’r cofrestrau is-adrannol eu llunio’n Gofrestr Risgiau Lefel Gwasanaeth. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad, oherwydd ei faint, fod y grŵp gwasanaeth yn ei chael hi’n anodd adolygu’r holl risgiau, sicrwydd, a chamau lliniaru. Felly caiff risgiau eu grwpio gyda’i gilydd ac maent yn ffurfio adroddiad eithriad at ddibenion uwchgyfeirio a ystyrir yn y Grŵp Rheoli Risgiau. Mae hyn yn arwain at y posibilrwydd nad oes craffu digonol ar risgiau. **(Argymhelliad 1)**

28 Ar lefel ranbarthol (Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig), daeth ein hadolygiad o’r gofrestr risgiau o hyd i nifer o broblemau. Roedd rhai risgiau a oedd wedi bod ar y gofrestr ers cryn amser. Daethom hefyd o hyd i broblemau gydag ansawdd camau lliniaru a sgoriau risgiau a gymhwysid yn anghyson. Dywedwyd wrthym, oherwydd COVID-19, fod nifer o gyfarfodydd is-adrannol lle byddai risgiau wedi cael eu trafod wedi eu gohirio rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, sydd wedi effeithio ar allu’r timau i adolygu’r cofrestrau. Felly, mae hyn yn arwain at bryderon am ansawdd y cofrestrau risgiau ar bob lefel o’r sefydliad. **(Gweler Argymhelliad 2)**

# Diwylliant sefydliadol a gwella ansawdd

29 Dylai sefydliadau’r GIG ganolbwyntio’n barhaus ar wella ansawdd gofal a defnyddio adnoddau cyfyngedig i sicrhau gwell canlyniadau a phrofiadau i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau. Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae’r Bwrdd Iechyd yn hybu diwylliant ansawdd a diwylliant diogelwch sy’n canolbwyntio ar gleifion, gan gynnwys gwella cydymffurfedd â hyfforddiant statudol a gorfodol, cymryd rhan mewn prosesau gwella ansawdd sy’n rhan annatod o strwythurau llywodraethu ehangach, gwrando a gweithredu ar sylwadau gan staff a chleifion, a dysgu gwersi.

30 **Mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Gwella Ansawdd pwrpasol, er bod COVID-19 wedi effeithio ar ei allu. Mae’r capasiti gweithredol ar gyfer cipio profiadau cleifion yn dda, ond gallai’r Bwrdd Iechyd ddefnyddio’r adnodd hwn yn fwy effeithiol. Mae fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig ar waith, ond mae angen ei adnewyddu i godi ymwybyddiaeth. Er bod ffyrdd gwahanol i staff adrodd am bryderon, ni chydnabyddir diwylliant agored bob amser, nid yw’r broses bob amser yn glir, ac mae rhai staff yn pryderu nad yw gwersi’n cael eu dysgu. Mae cydymffurfedd ag adolygiadau perfformiad yn isel mewn grwpiau gwasanaeth.**

## Gwella ansawdd

31 **Mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Gwella Ansawdd pwrpasol; fodd bynnag, mae ei gapasiti’n fach ac mae COVID-19 wedi effeithio ymhellach ar ei allu. Mae trefniadau ar gyfer monitro archwiliadau a marwolaethau clinigol ar waith, ond gellid gwella gwelededd ac amlder yr adroddiadau i’r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch at ddibenion craffu.**

## Adnoddau i gefnogi'r broses gwella ansawdd

32 Mae Tîm Gwella Ansawdd pwrpasol o saith WTE (naw pen) ac un swydd wag. Mae capasiti'r tîm hwn wedi aros yn gyson dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant a chymorth i dimau gweithredol drwy ddarparu Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd, sef y rhaglen hyfforddi gwella ansawdd cenedlaethol ar gyfer staff y GIG yng Nghymru. Nod y rhaglen yw datblygu'r gallu i wella ansawdd yn GIG Cymru gan ddefnyddio iaith gyffredin ar gyfer gwella ansawdd. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod cyfran y staff sydd wedi cwblhau Gwella Ansawdd Gyda'n Gilydd efydd yn y Bwrdd Iechyd yn isel, sef 4%, a 2% ar gyfer arian.

33 Lleihawyd capasiti'r Tîm Gwella Ansawdd yn ystod COVID-19 wrth i staff gael eu secondio i swyddogaethau eraill yn y Bwrdd Iechyd. Effeithiodd hyn ar allu'r tîm i ymgymryd â'i weithgareddau hyfforddi arferol, er yr aed i'r afael â hyn bellach ac mae'r tîm yn gweithredu fel y gwnâi o'r blaen erbyn hyn.

34 Ar lefel weithredol, mae gan Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys a'r is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig eu harweinydd dynodedig eu hunain ar gyfer gwella ansawdd, gydag amser gwarchodedig i gyflawni eu swyddogaethau. Dywedodd y timau gweithredol mai'n anaml y byddant yn cael unrhyw gefnogaeth gorfforaethol ar gyfer gwella ansawdd oherwydd adnoddau cyfyngedig yn y tîm canolog.

## Archwiliad Clinigol

35 Mae archwilio clinigol yn ffordd bwysig o roi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi diweddaru ei Bolisi Archwilio ac Effeithiolrwydd Clinigol yn ddiweddar, sy'n nodi'r fframwaith lleol ar gyfer blaenoriaethu, ymddygiad, cyflawni, a llywodraethu archwiliadau clinigol yn unol â'r canllawiau arferion gorau a gofynion y Safonau Iechyd a Gofal. Mae'n nodi'r strwythurau, y swyddogaethau, a'r prosesau sydd ar waith i gefnogi'r Bwrdd Iechyd, meddygon sy'n hyfforddi a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ac mae'n cynnwys hierarchaeth ar gyfer cyflawni blaenoriaethau archwiliadau clinigol. Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gwneud darpariaeth ddigonol i gefnogi clinigwyr a rheolwyr sy'n cynnal archwiliadau clinigol.

36 Mae gan y Bwrdd Iechyd dîm archwilio clinigol pwrpasol 9.8 WTE (11 pen). Fel gyda byrddau iechyd eraill, effeithiodd COVID-19 ar allu'r Bwrdd Iechyd i gynnal archwiliadau clinigol. Cafodd pob archwiliad clinigol lleol ei atal ym mis Mawrth 2020, ond ailddechreuwyd y rhain ym mis Gorffennaf 2020. Yn ystod y pandemig, effeithiodd rheolau cadw pellter cymdeithasol ar allu'r tîm i ymgymryd â'i weithgareddau arferol gan nad oedd gan y staff hawl i adael eu swyddfa i nôl cofnodion o wardiau, a achosodd beth oedi gydag archwiliadau cenedlaethol ac archwiliadau blaenoriaeth.

37 Mae gan y tîm archwilio clinigol ystod eang o gyfrifoldebau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- cefnogi archwiliadau clinigol cenedlaethol ac adolygiadau canlyniadau;
- cynnal archwiliadau ar draws y sefydliad;
- cefnogi archwiliadau clinigol eraill drwy ddarparu dyluniad prosiect, adalw cofnodion, adolygu cofnodion/systemau ac echdynnu gwybodaeth, cofnodi data a dadansoddi, allbynnau data a deunyddiau ar gyfer cyflwyniadau a chyngor cyffredinol;
- darparu hyfforddiant i staff gweithredol gynllunio a chynnal archwiliadau (er nad yw'r timau wedi gofyn iddynt ddarparu hyfforddiant ers blynyddoedd lawer);
- hwyluso adolygiadau marwolaethau y Bwrdd Iechyd, system sylwadau y system archwilio meddygol;
- cefnogi gwaith y Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol.

38 Yn rhan o'n gwaith, nid oedd modd i ni gael copi o gynllun archwilio clinigol diweddaraf y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, gwelsom ddogfen sy'n nodi'r archwiliadau clinigol cenedlaethol mandadol y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd eu cyflawni. Ystyriwyd y ddogfen gan Bwyllgor Archwilio ym mis Medi 2021. Byddem yn disgwyl gweld cynllun archwilio clinigol annibynnol sy'n cwmpasu archwiliadau clinigol cenedlaethol a lleol. **(Argymhelliad 2)**

39 Sefydlwyd y Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol sy'n cwrdd yn fisol ym mis Medi 2020, ac mae ganddo aelodaeth amlddisgyblaethol. Mae'r grŵp yn darparu sicrwydd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch drwy'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch fod systemau priodol ar waith ar gyfer datblygu a monitro polisïau a safonau sy'n ymwneud ag archwiliadau clinigol cenedlaethol a lleol ac adolygiadau marwolaethau. Mae eitemau agenda safonol y Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol ar gyfer archwilio clinigol yn cynnwys archwiliadau clinigol cenedlaethol, statws offer data archwilio a statws archwiliadau clinigol lleol.

40 Er ei bod yn gadarnhaol mai pwrpas y Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol yw darparu sicrwydd ar y systemau, dim ond unwaith y flwyddyn y mae archwiliad clinigol yn cael ei ystyried ar raglen waith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. Mae risg y gallai'r mesurau ansawdd pwysig hyn gael eu gogynnwys yn niweddariadau'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch[2] ac na wneir gwaith craffu digonol gan aelodau annibynnol. **(Argymhelliad 3)**

[2] Mae'r Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol wedi bod yn adrodd drwy bapurau diweddaru y Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ers mis Gorffennaf 2021.

### Adolygiadau o farwolaethau ac afiachedd

41 Mae cyfarfodydd adolygu marwolaethau ac afiachedd yn darparu dull systematig fel y gall gymheiriaid adolygu digwyddiadau andwyol, cymhlethdodau neu farwolaethau er mwyn dysgu a myfyrio ar ofal cleifion, a'i wella. Ar adeg ein gwaith, roedd y Gwasanaeth Archwilio Meddygol yn cael ei gyflwyno ledled Cymru gyda disgwyliad y bydd hyn yn dod yn swyddogaeth statudol o fis Ebrill 2022.

42 Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am adolygiadau marwolaethau y Bwrdd Iechyd; fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod bod angen cynyddu amlder yr adroddiadau. Roedd yr adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a adolygwyd gennym yn nodi meysydd dysgu a themâu, sy'n gadarnhaol.

43 Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n datblygu dogfen Fframwaith Adolygu Marwolaethau, sy'n seiliedig ar y Fframwaith Dysgu o Farwolaethau Cenedlaethol. Yn dilyn hyn, mae'n awyddus i ddiwygio cynnwys yr adroddiadau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn y dyfodol, er mwyn darparu rhagor o sicrwydd.

44 Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol yn cael y data perfformiad mewn cysylltiad ag adolygiadau marwolaethau. Mae'r Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol yn gyfrifol am graffu ar y tueddiadau sy'n deillio o adolygiadau marwolaethau ac ystadegau marwolaethau, am fonitro'r cynnydd o'i gymharu ag unrhyw gamau y cytunwyd arnynt ac am roi sicrwydd i'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch bod gwersi wedi eu dysgu o'r adolygiadau hyn. Mae dysgu o farwolaethau yn rhan allweddol o agenda y Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol. Mae'r Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol yn derbyn adroddiad diweddaru gan y Panel Craffu ar Farwolaethau, sef panel i sgrinio ac adolygu atgyfeiriadau gan yr archwilydd meddygol gyda'r bwriad o hybu dysg ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae'r Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol hefyd yn derbyn cyflwyniadau gan grwpiau gwasanaeth ar eu trefniadau a'r hyn y maent wedi ei ddysgu mewn cysylltiad â marwolaethau.

## Gwerthoedd ac ymddygiad

45 **Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig ar waith sy'n annog diwylliant agored a dysgu, er na chydnabyddir hyn bob amser gan y staff, ac mae cydymffurfedd ag arfarnu perfformiad yn isel mewn grwpiau gwasanaeth.**

46 Cyhoeddwyd Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiad y Bwrdd Iechyd yn 2015 sy'n nodi ei weledigaeth ar gyfer diwylliant ansawdd a diwylliant diogelwch sy'n canolbwyntio ar gleifion, sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus, ar fod yn agored, tryloywder, ac ar ddysgu pan fo pethau'n mynd o chwith. Er y bu gwaith blaenorol i roi cyhoeddusrwydd i'r gwerthoedd, ni fu unrhyw fentrau diweddar i adnewyddu ymwybyddiaeth y staff o'r gwerthoedd na'r ymddygiad. (**Argymhelliad 5**)

47 Datgelodd ein gwaith ddarlun cymysg mewn cysylltiad â’r diwylliant sy’n ymwneud ag adrodd gwallau, damweiniau a fu bron a digwydd neu ddigwyddiadau a chodi pryderon. Canfu ein harolwg o’r staff gweithredol sy’n gweithio ar draws yr Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig[3] (gweler y canlyniadau yn **Atodiad 2**) fod 53 o 80 o aelodau staff yn cytuno neu’n cytuno’n gryf fod y sefydliad yn annog staff i adrodd gwallau, damweiniau a fu bron a digwydd neu ddigwyddiadau. Fodd bynnag, dim ond 29 o 80 oedd yn cytuno neu’n cytuno’n gryf fod staff sy’n gysylltiedig â chamgymeriad, damwain a fu bron a digwydd neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad.

48 Dangosodd canlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2020[4] hefyd fod rhai aelodau o staff a oedd yn ymateb yn parhau i brofi bwlio, aflonyddwch neu gam-drin gan gydweithiwr arall, aelod o’r cyhoedd neu reolwr llinell yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (9%, 16%, a 15%, yn y drefn honno). Roedd llai na hanner yn cytuno neu’n cytuno’n gryf fod y sefydliad yn cymryd camau effeithiol os yw aelod o’r staff yn cael ei fwlio neu ei aflonyddu gan aelodau o staff (41%) neu aelod o’r cyhoedd (41%).

49 Mae hyfforddiant statudol a gorfodol yn bwysig o ran sicrhau diogelwch a lles staff a chleifion. Mae’n ofynnol i’r Bwrdd Iechyd adrodd cydymffurfedd i Lywodraeth Cymru bob mis, a tharged cydymffurfedd yr holl fyrddau iechyd yw 85%. Mae ffigurau o fis Ebrill 2021 yn dangos bod 80.20% o’r sefydliad yn cydymffurfio yn gyffredinol, sy’n ostyngiad o 2.29% o gymharu â 2020. Fodd bynnag, nodwyd cynnydd o 403 o aelodau staff yn ystod COVID-19. Dywedodd Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys fod 75.40% yn cydymffurfio. Mae cydymffurfedd wedi gwella ac, ym mis Hydref 2021, nodwyd mai 80.98% oedd y cydymffurfedd ar lefel y sefydliad yn gyffredinol, sy’n gynnydd o 0.78% o gymharu â mis Ebrill 2021.

50 Canfu ein harolwg o staff yn yr Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig fod 37 o 80 o aelodau staff yn anghytuno bod ganddynt ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol neu orfodol. Yn ddiweddar, mae’r Bwrdd Iechyd wedi nodi rhai strategaethau ar gyfer gwella cydymffurfedd, gan gynnwys ailddechrau’r Grŵp Hyfforddiant Gorfodol a ohiriwyd yn ystod y pandemig, edrych ar rai swyddogaethau swyddi i archwilio gwella cydymffurfedd a darparu sesiynau cymorth i’r rhai sy’n cael problemau â llythrennedd TG, cael gafael ar offer a chael amser i fynd i sesiynau.

[3] Gwnaethom wahodd staff gweithredol sy’n gweithio ar draws yr Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig i gymryd rhan yn ein harolwg o agweddau ar-lein ynghylch trefniadau ansawdd a diogelwch cleifion. Rhoddodd y Bwrdd Iechyd gyhoeddusrwydd i’r arolwg ar ein rhan. Amcangyfrifir mai 16% yw’r gyfradd ymateb. Er nad yw’r canfyddiadau’n debygol o gynrychioli safbwyntiau yr holl staff ar draws Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig, rydym wedi eu defnyddio i ddangos materion penodol.

[4] Cynhaliwyd arolwg staff GIG Cymru am dair wythnos ym mis Tachwedd 2020, yr un pryd ag ail don y trosglwyddiadau COVID-19 a nifer cynyddol o dderbyniadau i’r ysbyty. Cyfradd ymateb yr arolwg oedd 18%, o’i chymharu â chyfartaledd o 20% ar gyfer Cymru gyfan.

51 Trafodaeth ddwy ffordd yw Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol sy'n helpu staff i ddeall yr hyn a ddisgwylir ohonynt yn eu swyddogaeth, ymgysylltu'n fwy a derbyn cyfrifoldeb am eu perfformiad a'u datblygiad eu hunain. Targed Haen 1 a bennir gan Lywodraeth Cymru yw cydymffurfedd ag Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob bwrdd iechyd gyflawni cyfradd cydymffurfedd blynyddol o 85%. Ar hyn o bryd, 60.04% yw cydymffurfedd cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, ceir amrywiaeth sylweddol mewn grwpiau gwasanaeth, gyda Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys yn adrodd cydymffurfedd o 36% yn unig, a dim ond 25% yw cydymffurfedd yr Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig. Cyfeiriwyd at bwysau'r gwasanaeth ac amser fel yr heriau mwyaf i staff sy'n ymgymryd ag Adolygiadau Arfarnu a Datblygu Personol, yn enwedig gydag effaith COVID-19. **(Argymhelliad 5)**

## Gwrando a dysgu o sylwadau

52 **Mae gan y Bwrdd Iechyd adnoddau penodol i gipio profiadau cleifion, ond nid oes ganddo ddull cydgysylltiedig cyffredinol na strategaeth profiadau cleifion. Mae'r staff yn pryderu na fydd y Bwrdd Iechyd yn gweithredu mewn ymateb i bryderon ac y gellid gwneud mwy i hyrwyddo ac ymwreiddio dysg ar draws y sefydliad.**

### Profiadau cleifion

53 Ar adeg ein gwaith, nid oedd Strategaeth Profiadau Cleifion ar waith. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cymryd rhan ar lefel genedlaethol yn natblygiad y strategaeth profiadau cleifion cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw amserlenni hyn yn hysbys, ac mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried os oes angen cynllun tymor byr arno i reoli ei waith profiadau cleifion yn y cyfnod interim.

54 Ar lefel gorfforaethol, mae gan y Bwrdd Iechyd dîm Profiadau Cleifion pwrpasol o dri aelod o staff WTE sy'n adrodd i Bennaeth Profiadau Cleifion, Cyfreithiol a Risg sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Yn rhan o'u swyddogaethau, maen nhw'n darparu hyfforddiant i staff gweithredol ar sut i ddefnyddio'r system profiadau cleifion a llunio adroddiadau.

55 Ar lefel weithredol, mae gan Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys Wasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion sy'n dod o dan gylch gwaith Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Grŵp Gwasanaeth. Maen nhw'n helpu i gasglu profiadau cleifion a sylwadau ffrindiau a theulu drwy systemau papur a digidol, drwy ddarparu cyswllt uniongyrchol i gleifion ac maent wedi cael hyfforddiant ar adrodd straeon cleifion. Mae'r tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion ar gael saith diwrnod yr wythnos. Defnyddiwyd timau y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion yn helaeth yn ystod y pandemig i ddarparu rhyngwyneb rhwng cleifion a'u teuluoedd a'u ffrindiau pan oedd cyfyngiadau ymweld ar waith. Trosglwyddir gwybodaeth o'r Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion i'r sefydliad gan Bennaeth Ansawdd a Diogelwch y Grŵp Gwasanaeth a'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch, er

nad oedd yn glir a yw'r tîm profiadau cleifion corfforaethol yn rhyngweithio ac yn dysgu o brofiadau tîm y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion.

56 Ein harsylwad yw bod y tîm profiadau cleifion corfforaethol yn ymddangos fel petai wedi ymddieithrio oddi wrth dimau y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion yn y grwpiau gwasanaeth sy'n dod o dan Bennaeth y Grŵp Ansawdd a Diogelwch, a gallai fod yn colli allan ar wybodaeth ddefnyddiol, gan fod y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion gyda chleifion bob dydd ac yn helpu cleifion i gwblhau'r arolygon sylwadau. Roedd yn amlwg drwy gyfweliadau â staff eu bod yn teimlo bod modd gwneud mwy o ran profiadau cleifion yn y Bwrdd Iechyd a sut y defnyddir yr wybodaeth.

57 Dywedwyd wrthym fod cyfle i roi sylwadau profiadau cleifion 24/7, drwy systemau sylwadau digidol. Ym mis Awst 2021, cwblhawyd 2,025 o arolygon ffrindiau a theulu ar draws y sefydliad, a dywedodd 92% o'r rhain y byddent yn argymell y Bwrdd Iechyd yn fawr i ffrindiau a theulu. Cofnododd Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys 642 o ymatebion, gyda 92% o'r rhain yn sgôr 'da' neu 'da iawn' i'w profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Yn ystod yr un cyfnod, derbyniodd y Bwrdd Iechyd dderbyn 150 o gwynion yr oedd 77 o'r rhain yn gysylltiedig â Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys. Roedd y pedair prif gŵyn yn ymwneud â materion cyfathrebu, triniaeth/asesiadau clinigol, derbyniadau, ac apwyntiadau.

58 Mae'r Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig yn defnyddio'r un broses ffurflen sylwadau â gweddill yr is-adrannau yn y grŵp gwasanaeth. Dywedwyd wrthym fod canlyniadau o'r rhain yn cael eu darparu i arweinwyr wardiau ac adrannau, ond nid yw'n glir sut y mae'r staff gweithredol ehangach yn cael gafael ar y sylwadau. Cyn y pandemig, dywedwyd wrthym fod y rhain wedi eu lledaenu drwy wybodaeth 'Sut rydym yn gwneud' a ddangoswyd wrth fynedfa wardiau unigol ac adrannau. Mae'r Bwrdd Iechyd yn bwriadu ail-lansio hyn pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio, a gan roi'r system newydd ar gyfer profiadau cleifion ar waith. Canfuom mai dim ond 30 o'r 80 o aelodau staff a ymatebodd i'n harolwg oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am sylwadau cleifion am eu maes gwaith.

59 Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer ymateb prydlon i gwynion yw 75% o fewn y targed o 30 diwrnod. Ym mis Awst 2021, 83% oedd perfformiad y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd Grŵp Sicrwydd Gwneud Iawn am Bryder (CRAG) sy'n adolygu ymatebion i gwynion ac yn cynnal adolygiadau dwfn mewn grwpiau gwasanaeth er mwyn bod yn siŵr bod yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu a chael sicrwydd. Yn ystod y pandemig, symudodd y tîm pryderon i rota saith diwrnod wrth i'w llwyth gwaith gynyddu, ond yn y Grwpiau Gwasanaeth, roedd gostyngiadau yn yr amseroedd ymatebion i gwynion wrth i rai aelodau staff a oedd wedi eu hyfforddi i ymateb i bryderon gael eu hadleoli.

60 Mae'r pryderon a'r wybodaeth am gwynion yn cael eu defnyddio i nodi themâu a thueddiadau. Mae cyfathrebu yn thema gyffredin ar gyfer cwynion, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod hyn. Sefydlwyd grŵp gorchwyl a gorffen yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r ddarpariaeth hyfforddiant

ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol â chleifion mewn ymateb uniongyrchol i faterion sy'n deillio o gwynion.

### Gwrando ar bryderon y staff

61 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i wrando ar brofiadau a phryderon y staff, a dysgu ohonynt. Lansiodd y Bwrdd Iechyd Wasanaeth Gwarcheidwaid ar gyfer staff ym mis Mai 2019, sef gwasanaeth annibynnol allanol sy'n cynnig ffordd ddiogel a chyfrinachol i'r staff godi unrhyw bryder neu risg yn y gweithle. Mae hyn yn cynnwys pryderon ynghylch diogelwch cleifion. Nid yw hyn yn disodli'r systemau cymorth presennol yn y Bwrdd Iechyd, ond fe'i gweithredwyd o ganlyniad uniongyrchol i'r sylwadau a ddarparwyd drwy arolwg staff y GIG. Y Bwrdd Iechyd yw'r unig fwrdd iechyd yng Nghymru i ddarparu'r gwasanaeth hwn.

62 Yn ôl y Gwasanaeth Gwarcheidwaid, yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021, cododd y staff gyfanswm o 66 o bryderon (96 y flwyddyn flaenorol), nad oedd unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion wedi eu codi ar eu cyfer o'u cymharu â chwech yn y cyfnod adrodd blaenorol. O'r 66 a adroddodd bryderon, roedd 29 ohonynt yn credu na fyddai'n gwrando arnynt ac roedd 21 ohonynt yn credu na fyddai'r sefydliad yn gweithredu. Mae hyn yn debyg i ganlyniadau ein harolwg staff a ganfu mai dim ond 36 o 80 oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y sefydliad yn gweithredu er mwyn sicrhau nad yw gwallau, damweiniau a fu bron a digwydd na digwyddiadau yn digwydd eto. Roedd y mwyafrif o bryderon a godwyd yn adroddiad y Gwasanaeth Gwarcheidwaid yn ymwneud â phryderon rheoli (30). O'r Grwpiau Gwasanaeth, Treforys oedd â'r nifer uchaf o gysylltiadau (25). Mae hyn yn uwch na Chastell-nedd Port Talbot (5) a Singleton (11). Nid yw'n glir a yw'r gyfradd uwch yn adlewyrchu'r pwysau ar y gwasanaethau sydd yn y grŵp gwasanaeth, neu fwy o ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Gwarcheidwaid a pharodrwydd i'w ddefnyddio.

63 Mae uwch-dîm y Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n helaeth gyda Chronfa'r Brenin i ymwreiddio arweinyddiaeth dosturiol yn y ffordd y mae'r sefydliad yn arwain ac yn cyfathrebu â'r staff a defnyddwyr y gwasanaeth. Yn 2019, ymrwymodd y Bwrdd Iechyd i weithio gyda Mersey Care NHS Foundation Trust i ddatblygu Just and Learning Culture[5]. Hyfforddi 30 o randdeiliaid allweddol gan gynnwys partneriaid undebau llafur, rheolwyr, a staff Adnoddau Dynol, y tîm Dysgu a Datblygu Sefydliadol yn ystod dechrau mis Mai 2021 er mwyn cysoni â rhaglen waith cenedlaethol Perthnasoedd Gweithio Iach.

64 Os oes pryderon yn datblygu am ward neu faes, gall y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion drefnu ymweliad dirybudd â'r maes hwnnw gan ddefnyddio'r pecyn cymorth fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer wardiau. Mae'r ymweliadau'n cynnwys tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o'r sefydliad. Er

[5] Rhaglen a ddatblygwyd gan Mersey Care NHS Foundation Trust i newid yn sylfaenol y ffordd yr oedd yn ymateb i ddigwyddiadau, niwed i gleifion a chwynion yn erbyn staff yw Just and Learning Culture.

bod yr ymweliadau wedi eu hatal yn ystod y pandemig i raddau helaeth, bu adolygiad maes ward yn ddiweddar. Roedd yr adolygiad hwn o'r farn bod y maes yn ddiogel ar gyfer gofal cleifion, ond nododd nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella, gan gynnwys materion yn ymwneud â rheoli heintiau, dogfennau yn ymwneud â maeth a hydradu, arwyddion wardiau ac amgylchedd cyffredinol y wardiau.

### Straeon cleifion

65 Defnyddir straeon cleifion drwy'r sefydliad, o gyfarfodydd Bwrdd i gyfarfodydd Ansawdd a Diogelwch y grŵp gwasanaeth, ac yn nodweddiadol maent ar ddechrau'r cyfarfod/pwyllgor i osod naws y cyfarfod o safbwynt claf. Mae gan bob un o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch stori claf ar y dechrau. Mae'r straeon yn amlinellu profiad personol rhywun sydd wedi defnyddio un o wasanaethau'r Bwrdd Iechyd ac maent yn gymysgedd o wersi o rywbeth nad yw wedi mynd yn rhy dda a straeon sy'n adlewyrchu profiad cadarnhaol a gafodd claf. Roedd y straeon cleifion a arsylwyd gennym yn emosiynol yn aml oherwydd bod y claf neu aelod o'r teulu yn arfer yn cael ei gyfweld yn rhan o'r stori. Caiff straeon cleifion eu croesawu gan aelodau annibynnol ac maent yn annog trafodaeth ac yn herio yr hyn a ddysgwyd a sut maent yn cael eu rhannu.

### WalkRounds Diogelwch Cleifion

66 Mae WalkRounds diogelwch Cleifion yn rhoi dealltwriaeth i aelodau annibynnol o'r realiti i staff a chleifion, yn helpu i wneud data yn fwy ystyrlon, ac yn rhoi sicrwydd o fwy nag un ffynhonnell wybodaeth. Ar adeg ein harchwiliad, roedd y Bwrdd Iechyd wedi gohirio rhaglen WalkRounds oherwydd y pandemig, ond fe'i hailddechreuwyd ym Medi 2021 er ei bod ar raddfa lai oherwydd yr angen o hyd i ystyried cyfyngiadau ac ystyriaethau COVID-19. Cyn y pandemig, roedd gan y Bwrdd Iechyd raglen WalkRounds ag aelod annibynnol rheolaidd a chyfarwyddwr gweithredol lle roeddent yn trosglwyddo canfyddiadau drwy dempled safonol. Roedd pawb a gyfwelwyd ar lefel weithredol o'r farn bod yr ymweliadau hyn yn fuddiol. Mae aelodau annibynnol hefyd o'r farn bod yr ymweliadau hyn yn hanfodol i'w gallu i gyflawni'r swyddogaeth yn effeithiol oherwydd eu bod yn darparu triongledd o ran gwybodaeth, yn eu helpu i gael ymdeimlad o forâl y staff a dealltwriaeth o'r materion dyddiol sy'n effeithio ar y staff.

## Strwythurau a phrosesau llywodraethu

67 Ystyriodd ein gwaith i ba raddau y mae strwythurau a phrosesau sefydliadol ar lefel y bwrdd ac islaw lefel y bwrdd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol o ansawdd uchel.

68 Canfuom, er bod **pwyllgorau'r Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth briodol a bod cyfrifoldeb corfforaethol am ansawdd a diogelwch cleifion yn glir, yr**

**arweinwyr nyrsio sy'n gyfrifol am gyflawni'r agenda ansawdd a diogelwch i raddau helaeth. Mae diffyg gweithredu ar y fframwaith ansawdd a diogelwch yn gyfle a gollwyd i roi eglurder ar y trefniadau llywodraethu ansawdd. Prin yw'r adnoddau corfforaethol i gefnogi llywodraethu o ansawdd ac mae'r adnoddau sydd mewn grwpiau gwasanaeth gweithredol yn dameidiog ac yn anghyson, ac nid ydynt yn cyflawni eu llawn botensial.**

## Dylunio sefydliadol er mwyn cefnogi llywodraethu effeithiol

69 **Mae pwyllgorau'r Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth briodol ac mae'r cyfrifoldeb corfforaethol am ansawdd a diogelwch cleifion yn glir. Fodd bynnag, yr arweinwyr nyrsio sy'n bennaf gyfrifol am gyflawni'r agenda ansawdd a diogelwch, ac mae nifer o newidiadau mewn personél ar lefel y gweithredwyr a'r lefel weithredol sydd wedi cyflwyno heriau. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu fframwaith ansawdd a diogelwch, ond nid yw wedi ei roi ar waith ac mae gwendidau mewn dulliau llywodraethu ansawdd ymhlith y timau gweithredol yn arwain at fethu pryderon am ansawdd. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r gwendidau ac mae wedi bod yn cynnal ei adolygiad llywodraethu mewnol ei hun.**

### Y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch

70 Cymeradwyodd y Bwrdd y Fframwaith Ansawdd a Diogelwch ym mis Ionawr 2021. Mae'r fframwaith hwn yn nodi'r prosesau a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau ei hun bod ei wasanaethau o ansawdd uchel a'u bod nhw'n ddiogel i bawb. Fodd bynnag, nid yw'r fframwaith wedi ei fabwysiadu ar draws y sefydliad ac felly nid yw'n cyflawni ei fuddion arfaethedig nac yn rhoi eglurder ar drefniadau llywodraethu ansawdd yn y Bwrdd Iechyd. **(Argymhelliad 6)**

### Cyfrifoldeb corfforaethol ac arweinyddiaeth

71 Er bod cyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd a diogelwch ymhlith y tîm Gweithredol, gyda'r Cyfarwyddwyr Clinigol yn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau ansawdd a diogelwch y gwasanaethau clinigol, y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion sy'n cymryd cyfrifoldeb am ansawdd a diogelwch i raddau helaeth. **(Argymhelliad 7)**

72 Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion wedi dirprwyo cyfrifoldeb am y polisi a'r cyfeiriad strategol cyffredinol a'r arweiniad proffesiynol dros Bryderon a Gweithio i Wella. Mae'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion hefyd yn cadeirio'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch a gefnogir gan y Pennaeth Ansawdd a Diogelwch. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y Cyfarwyddwr Nyrsio Cynorthwyol yn gweithredu fel Cyfarwyddwr Interim. Ym mis Hydref 2021, cafodd y cyn-Gyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion ei secondio yn ôl i'r Bwrdd Iechyd gan Lywodraeth Cymru am gyfnod o ddwy flynedd.

73 Mae gan y Cyfarwyddwr Meddygol gyfrifoldeb am archwilio clinigol ac effeithiolrwydd ynghyd â gwella ansawdd; y dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol sy'n gyfrifol am y Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol. Mae'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd yn gyfrifol am sicrhau bod holl staff cofrestredig y Cyngor Gofal Iechyd Proffesiynol yn addas i'r diben i sicrhau y darperir ymyrraeth therapiwtig ddiogel o ansawdd uchel.

74 Ers newid yn y portffolio, mae gan y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol gyfrifoldeb am reoli risgiau, gwasanaethau cyfreithiol, y tîm digwyddiadau difrifol, y tîm profiadau cleifion, a'r tîm sicrwydd pryderon. Gadawodd y Cyfarwyddwr y Bwrdd Iechyd ddiwedd mis Tachwedd 2021 a disgwylir rhoi trefniad dros dro ar waith.

75 Yn y grwpiau gwasanaeth a'r is-adrannau, mae Pennaeth Ansawdd a Diogelwch Grŵp Treforys yn gyfrifol am ddarparu cymorth llywodraethu o ddydd i ddydd a chymorth llywodraethu ansawdd, gan adrodd i'r Cyfarwyddwr Nyrsio yn nhriwriaeth y Grŵp Gwasanaeth[6]. Mae Pennaeth Ansawdd a Diogelwch y Grŵp yn gweithio'n agos gyda'r nyrs arwain ym mhob un o'r is-adrannau er bod y swyddogaeth nyrs arwain yn wag mewn nifer o is-adrannau yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys. Mae swyddi gwag ar gyfer y swyddogaeth nyrs arwain yn peryglu'r graddau y goruchwylir llywodraethu ansawdd ar lefel rhanbarthol. Yn ystod 2021, ar ôl ailstrwythuro'r grŵp gwasanaeth, bu trosiant sylweddol ar lefel y grŵp gwasanaeth ac ar lefel is-adrannau.

## Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd

76 Mae Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am roi sicrwydd a chyngor i'r Bwrdd mewn cysylltiad ag ansawdd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn cwrdd yn fisol, a pharhaodd i gwrdd drwy gydol y pandemig er bod hyd y cyfarfodydd wedi eu cwtogi ychydig. Yn rhan o'n harchwiliad, arsylwyd y pwyllgor gennym ar sawl achlysur, a chanfuom fod lefel dda o her gan yr aelodau annibynnol. Fodd bynnag, mae Aelodau Annibynnol wedi mynegi rhwystredigaeth am y diffyg cynnydd mewn meysydd penodol, yn enwedig haint, atal, a rheoli. Mae hon yn eitem hirsefydlog ar agenda'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, er bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod â rhai o'r cyfraddau uchaf ar gyfer monitro heintiau o dan fframwaith cyflawni perfformiad GIG Cymru.

77 Cyflwynir crynodeb o drafodaeth ddiweddaraf y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i gyfarfod ffurfiol y Bwrdd gan Gadeirydd y Pwyllgor. Mae gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch gynllun gwaith treigl sy'n nodi'r hyn y mae'n gobeithio ei gwmpasu ym mhob cyfarfod. Yn ystod ein gwaith maes, cymerodd Is-gadeirydd y Bwrdd, a benodwyd yn ddiweddar, yr awenau gan weithredu fel cadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwn.

[6] Mae tîm triwriaeth y Grŵp Gwasanaeth yn cynnwys Cyfarwyddwr Grŵp Gwasanaeth, Cyfarwyddwr Nyrsio a Chyfarwyddwr Meddygol. Mae trefniad arwain tebyg ar waith yn y is-adrannau hefyd.

78 Cydnabyddir, fodd bynnag, fod gorgyffwrdd rhwng y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn broblem, gyda'r un adroddiad perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r ddau bwyllgor (cyfeirir at hyn yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn).

## Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch y Bwrdd Iechyd

79 Is-grŵp o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yw'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch. Mae'r grŵp yn darparu gwybodaeth amserol a chynhwysfawr i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sy'n cwmpasu ystod o systemau a phrosesau clinigol allweddol sy'n hanfodol. Mae hyn yn cynnwys rheoli digwyddiadau ac adrodd, gwella ansawdd, gofal o ansawdd, cydymffurfedd â Safonau Iechyd a Gofal a phrofiadau cleifion. Mae'r grŵp llywodraethu yn cwrdd yn fisol ac fe'i cadeirir gan y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion gyda chynrychiolaeth gan ddirprwy gyfarwyddwyr, cyfarwyddwyr grwpiau gwasanaeth a phenaethiaid gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig ag ansawdd a diogelwch. Yn flaenorol, roedd problemau yn ymwneud â phresenoldeb y grwpiau gwasanaeth, ond mae hyn wedi cael sylw bellach ac mae presenoldeb wedi gwella'n sylweddol. Mae pob un o'r grwpiau gwasanaeth yn adrodd yn uniongyrchol i'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch ac adroddir negeseuon allweddol i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn fisol drwy'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch drwy bapur diweddaru. Mae'r adroddiad diweddaru wedi ei addasu dros amser i ddiwallu anghenion y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ac adlewyrchu sut mae'r Grŵp Llywodraethu wedi rhannu ei agenda yn COVID-19 ac ansawdd a diogelwch cyffredinol.

## Grwpiau gweithredol ar gyfer llywodraethu ansawdd

80 Yng Ngrŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys, mae cyfarfod pwrpasol Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau Cleifion sy'n cwrdd bob mis i ystyried materion sy'n benodol i'r grŵp a'i is-adrannau. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig gyfarfod ansawdd a diogelwch ar wahân, ond mae'n trafod materion yn rhan o'i gyfarfod tîm rheoli rheolaidd. Canfuom fod hyn yn wir mewn is-adrannau eraill.

81 Yn ddiweddar, bu newidiadau i'r tîm arwain yn yr Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig. Mae'r tîm wedi cydnabod yr angen i adolygu ac adnewyddu'r trefniadau llywodraethu is-adrannol gyda chynlluniau i gael cyfarfod ansawdd a diogelwch pwrpasol wrth aros i gynnal adolygiad llywodraethu ehangach.

82 Yn ystod ein gwaith maes, cwblhawyd adolygiad llawdriniaeth gardiaidd, a reolir hefyd drwy Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys. Comisiynwyd adolygiad Getting It Right First Time (GIRFT) gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, a nododd fod y Bwrdd Iechyd ar yr ymylon ar nifer o fetrigau ansawdd, gyda phryderon penodol am gyfraddau marwolaethau sy'n uwch na'r disgwyl yn dilyn llawdriniaethau falf feitrol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn dda i'r pryderon a

nodwyd ac mae cynllun gweithredu manwl yn cael ei roi ar waith, gan gynnwys gwaith i ddeall materion sy'n ymwneud â diffiniadau data ac anghywirdeb posibl yn y data a gyflwynwyd gan y Bwrdd Iechyd mewn archwiliad clinigol cenedlaethol. Er gwaethaf yr ymateb cadarnhaol i ganfyddiadau GIRFT, mae'n destun pryder bod y materion a godwyd gan yr adolygiad yn syndod i'r Bwrdd Iechyd ac mae'n codi cwestiynau difrifol am gadernid trefniadau llywodraethu ansawdd ar lefel weithredol.

83 Yn dilyn adolygiad GIRFT, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad manwl o'r trefniadau llywodraethu ansawdd gweithredol ar draws ei holl grwpiau gwasanaeth. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben ddiwedd mis Tachwedd 2021, gyda'r nod o wella'r trefniadau llywodraethu ansawdd yn y timau gweithredol.

## Adnoddau ac arbenigedd i gefnogi'r trefniadau llywodraethu ansawdd

84 **Mae adnoddau i gefnogi'r broses llywodraethu ansawdd yn gorfforaethol yn gyfyngedig. Mae adnoddau ychwanegol wedi eu hymwreiddio yn y grwpiau gwasanaeth, ond gweithio ar wahân y mae'r rhain ac mae ganddynt y risg o wanhau'r cyfrifoldeb a dderbynnir yn yr is-adrannau. Mae cyfleoedd yn bodoli i wneud gwell defnydd o adnoddau ac arbenigedd ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd drwy ddod â nhw at ei gilydd.**

85 Yn gorfforaethol, mae dau brif dîm sy'n gweithio i gefnogi materion ansawdd a diogelwch yn y Bwrdd Iechyd: y Tîm Profiadau Cleifion, Cyfreithiol a Risg sy'n adrodd i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol a thîm bach sy'n cefnogi'r Pennaeth Ansawdd a Diogelwch Corfforaethol, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion. Mae hyn yn ychwanegol i'r Timau Archwilio Clinigol, Atal a Rheoli Heintiau, a Gwella Ansawdd y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.

86 Ers Chwefror 2020, mae'r Tîm Profiadau Cleifion, Cyfreithiol a Risg wedi adrodd i'r Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol. Yn flaenorol, adroddai'r tîm i'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion. Gwelwyd y cam fel un sy'n darparu mwy o annibyniaeth wrth ymdrin â digwyddiadau a phryderon. Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol sy'n goruchwylio llywodraethiant y trefniadau, ond nid yw'n ymwneud ag achosion unigol. Mae ymadawiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi cyfle i ystyried a fyddai rhai o'r timau hyn mewn sefyllfa well i adrodd i'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion.

87 Mae'r Tîm Pryderon (tri WTE, pedwar pen) yn goruchwylio'r polisi, yn sicrhau cysondeb yn y dull o ymdrin â phryderon ac yn rheoli achosion yr ombwdsmon. Mae'r adnoddau i ymchwilio a dysgu o bryderon wedi eu datganoli i'r grwpiau gwasanaeth. Nod datganoli cyfrifoldeb yw sicrhau ymchwiliadau mwy amserol a galluogi grwpiau gwasanaeth i dderbyn mwy o gyfrifoldeb am y ddysg a'r broses o roi gweithredoedd ar waith. Mae'r Tîm Pryderon yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff y grŵp gwasanaeth sy'n ymchwilio i gwynion, gan gynnwys

rheolwyr. Ar hyn o bryd, dim ond 30 o aelodau staff ar draws y Bwrdd Iechyd sydd wedi eu hyfforddi i ymchwilio i gwynion.

88 Ceir tîm pwrpasol ar gyfer Atal a Rheoli Heintiau (16.5 WTE, 21 Pen). Mae'r tîm wedi tyfu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae'n darparu gwasanaeth saith diwrnod sy'n cwmpasu gofal cymunedol, gofal sylfaenol, iechyd meddwl ac anableddau dysgu. Mae'r tîm yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i staff gweithredol megis hyfforddiant hylendid dwylo a chyfarpar diogelu personol. Er gwaethaf cynnydd mewn adnoddau i'r tîm Atal a Rheoli Heintiau, peryglir mentrau i leihau heintiau yn aml gan ddibyniaeth ar staff dros dro, derbyn gormod o gleifion i'r ysbyty, a chynnydd mewn gweithgarwch, fel nad yw'n bosibl symud cleifion i ardal arall dros dro i gyflawni gwaith glanhau trwyadl.

89 Ar lefel weithredol, mae gan Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys adnodd tîm ansawdd a diogelwch pwrpasol sy'n cefnogi rheolwyr gweithredol, yn glinigol ac yn anghlinigol. (**Argymhelliad 8**) Mae arweinydd ansawdd a diogelwch o Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys a neilltuwyd i'r Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig sy'n darparu data perfformiad ansawdd a diogelwch i'r is-adran yn ogystal â chynnal cyfarfodydd bob pythefnos gyda'r is-adran ac ysgrifennu adroddiad yr is-adran a gyflwynir i gyfarfod Ansawdd a Diogelwch y grŵp gwasanaeth. Er bod hyn yn darparu cefnogaeth i'r is-adrannau, mae risg nad yw'r is-adrannau'n derbyn cyfrifoldeb am eu data eu hunain ac yn colli sgiliau o ran defnyddio a dehongli data.

# Trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd

90 Ystyriodd ein gwaith a yw'r trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad ar lefel weithredol a strategol yn rhoi pwyslais digonol ar ansawdd a diogelwch cleifion.

91 Canfuom fod **gan y Bwrdd Iechyd drefniadau digonol ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch ar lefel gorfforaethol, ond bod angen i'r Bwrdd Iechyd adolygu trefniadau sicrwydd ar lefel grŵp gwasanaeth ac is-adrannol, yn enwedig mewn cysylltiad â datblygu dangosfyrddau o ansawdd a defnyddio data.**

## Gwybodaeth ar gyfer craffu a sicrwydd

92 **Mae Pedwar Pedrant Niwed wedi eu hintegreiddio i'r trefniadau adrodd cyfredol. Fodd bynnag, mae diffyg cefnogaeth i ddadansoddi data, ac mae angen gwaith i gynhyrchu dangosfyrddau o safon a deall bod angen y data i alluogi cyfrifoldeb gweithredol ac i fonitro perfformiad yn well.**

93 Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn cyflwyno'r adroddiad Perfformiad Ansawdd a Diogelwch i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn fisol. Mae'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad cyfredol y Bwrdd Iechyd o ran cyflawni mesurau perfformiad lleol allweddol yn ogystal â'r mesurau cyflawni cenedlaethol. Addaswyd yr adroddiad perfformiad yn sgil y pandemig er mwyn cysoni'r adroddiad

â'r pedwar pedrant niwed fel y nodir yn Fframwaith Gweithredu COVID-19 GIG Cymru. Mae fformat yr adroddiad yn glir, ac mae'n cynnwys negeseuon allweddol a chrynodebau i helpu'r darllenydd i ganolbwyntio ar faterion arwyddocaol. Yn nodweddiadol, mae'r adroddiad yn cynnwys oddeutu 60+ o dudalennau ond o'n harsylwadau o'r pwyllgor, mae'r Cyfarwyddwr Cyllid yn rhedeg drwy'r negeseuon allweddol ar lafar. Canfuom, fodd bynnag, oherwydd bod y Pwyllgor Perfformiad a Chyllid yn cael ei gynnal yn syth cyn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch ar yr un diwrnod, nodir yn aml fod materion sy'n ymwneud â'r adroddiad eisoes wedi eu trafod yn sylweddol, wrth i rai Aelodau Annibynnol fynd i'r ddau bwyllgor. Mae ein gwaith asesu strwythuredig 2021 wedi gwneud argymhelliad mewn cysylltiad â'r mater hwn.

94 Llunnir Adroddiad Profiadau Cleifion bob yn ail mis ar gyfer y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch sy'n cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am brofiadau cleifion, pryderon a digwyddiadau, y broses o reoli risgiau a'r wybodaeth ddiweddaraf am ymatebion i arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn gyffredinol, mae'r adroddiad yn yr un fformat ar gyfer pob cyfarfod ac fe'i llenwir â gwybodaeth gyfoes. Er bod yr wybodaeth a'r data hyn yn ddefnyddiol, mae angen i'r Bwrdd Iechyd ystyried ehangu'r adroddiad er mwyn cynnwys gwybodaeth am beth oedd yr effaith a'r canlyniadau, a sut y gallant wella.

95 Yn weithredol, dywedwyd wrthym fod diffyg cymorth ar gael i ddadansoddi data. Roedd gweithredu dangosfwrdd Ansawdd a Diogelwch yn ystod 2021 yn un o amcanion allweddol Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys, ond ar gam cynnar yr oedd y trafodaethau hyn ar adeg yr archwiliad. Ar hyn o bryd, mae nifer o systemau perfformio a dangosfyrddau sydd ar gael i'r Grŵp Gwasanaeth, ond nid oes un lleoliad lle mae metrigau ansawdd a diogelwch ar gael ac ni ellir twrio i lawr i lefel ward/adran. Mae data ychwanegol hefyd ar gael drwy ddefnyddio gweithgaredd archwilio clinigol, fodd bynnag, roedd gwaith ychwanegol i ddeall pam na chafodd y Bwrdd Iechyd weld y materion a nodwyd yn adolygiad GIRFT sy'n tynnu sylw at ddiffyg adolygiadau rheolaidd ar ddata canlyniadau clinigol.

96 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen iddo adeiladu ymhellach ar y systemau gwybodeg a gwybodaeth busnes er mwyn galluogi'r grwpiau gwasanaeth i gael gafael ar fetrigau allweddol ar ddiogelwch, profiadau a chanlyniadau cleifion ac mae wedi ymrwymo i ganolbwyntio ar atebion yn ystod 2021–22 a 2022–23.

## Cwmpasu materion ansawdd a diogelwch cleifion

97 **Mae agendâu y pwyllgorau corfforaethol yn cael eu rheoli'n dda, gan ganiatáu i gwmpas eang o faterion gael eu trafod, ond mae'r trefniadau ar gyfer grwpiau gweithredol yn fwy amrywiol ac yn gyfyngedig eu cynnwys.**

98 Mae'r broses o adrodd ar berfformiad yn y Bwrdd Iechyd yn gyson â'r fframwaith cyflawni cenedlaethol presennol, gyda'r 84 mesur ar waith sydd wedi eu mapio i bedwar nod Cymru Iachach. Cyflwynir yr adroddiadau hyn i'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Perfformiad a Chyllid. Mae'r adroddiad

perfformiad yn nodi gwybodaeth am dueddiadau yn glir, a darperir sylwebaeth i esbonio perfformiad a chamau lefel uchel a gymerir i fynd i'r afael â meysydd pan nad yw'r perfformiad yn cyd-fynd â'r disgwyliadau. Fodd bynnag, oherwydd pwysau gweithredol parhaus, cytunwyd y byddai'r diweddariad naratif yn cael ei hepgor o'r adroddiad perfformiad. Roedd hyn yn dal i fod yn wir ym mis Hydref 2021.

99 Mae'r sylw i eitemau ar yr agenda a gafwyd yn y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn enfawr ac mae'n cwmpasu ehangder o feysydd y mae rhai ohonynt yn rhan o'i raglen waith rheolaidd ac eitemau sefydlog, ac eraill y gofynnir amdanynt gan y pwyllgor o ganlyniad i bryderon a nodwyd mewn cyfarfodydd blaenorol. Fodd bynnag, er bod ymdrechion i fynd i'r afael â chydbwysedd y gofal eilaidd, cymunedol a sylfaenol yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, mae'r Aelodau Annibynnol yn rhwystredig oherwydd nad oes cyfoeth o wybodaeth feintiol ar gael am ofal sylfaenol ac oherwydd nad ydynt yn cael gwybodaeth reolaidd am sylwadau cleifion ar gyfer y gwasanaethau hyn.

100 Mae'r agenda ar gyfer y Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch yn cwmpasu polisi ac eitemau adrodd mwy cyffredinol ac yna mae'r agenda wedi ei rhannu'n rhan A a rhan B. Diwygiwyd y templed agenda yn ystod COVID-19 ac nid yw'n cael ei fapio ar hyn o bryd o'i gymharu â'r themâu Safonau Iechyd a Gofal fel yr oedd yn flaenorol. Mae rhan A yn cwmpasu eitemau penodol sy'n gysylltiedig â COVID-19 megis rheoli heintiau, cyfarpar diogelu personol, diogelu, a gweithio i wella. Rhan B yw'r grwpiau gwasanaeth sy'n cyflwyno eu hadroddiadau diweddaru yn ôl i'r grŵp. Ein harsylwad ni ar y cyfarfod yw bod dadl a thrafodaeth dda, ond bod gormod i'w gwmpasu yn ystod yr amser penodedig ac mae'r cyfarfodydd yn rhedeg dros amser. Roedd y papurau diweddaru a welsom o ansawdd amrywiol o ran tynnu sylw at y materion allweddol ar gyfer trafodaeth wedi ei thargedu ac roedd rhai papurau'n hwyr neu wedi eu nodi yn unig oherwydd nad oedd cynrychiolydd ar gael o'r grŵp gwasanaeth.

101 Mae agenda cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau Cleifion Grŵp Gwasanaeth Ysbyty Treforys yn cynnwys adroddiad ar gyfer pob is-adran sy'n tynnu sylw at gyflawniadau a heriau allweddol ar dreigl un o bob pedwar cyfarfod. Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynghylch a yw un diweddariad is-adrannol ymhob pedwar cyfarfod yn ddigon aml. Ar adeg ein hadolygiad, roedd y templed safonol ar gyfer adrodd yn dal i gael ei ddatblygu ac roedd ansawdd yr adroddiadau diweddaru o'r adrannau yn amrywiol. Gallai adroddiadau nodi yn fwy defnyddiol a chrynhoi'r materion allweddol i'r darllenydd. Mae'r agenda hefyd yn cwmpasu eitemau ar lefel grŵp gwasanaeth, rheoli risgiau, archwiliadau allanol, cwynion a digwyddiadau ac adroddiadau eraill o bwys ar ystod ehangach o bynciau sy'n gysylltiedig ag ansawdd a diogelwch.

102 Oherwydd nad oes gan yr Is-adran Gwasanaethau Llawfeddygol Integredig ei bwyllgor ansawdd a diogelwch pwrpasol ei hun, ond yn hytrach, mae ganddo eitem agenda sefydlog ar ei agenda bwrdd rheoli; cyfyngedig yw'r sylw ar faterion ansawdd a diogelwch.

# Atodiad 1

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

**Arddangosyn 2: ymateb y rheolwyr**

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| **Rheoli risgiau**<br>A1 Mae'r dull a ddefnyddir gan reolwyr gweithredol i reoli risgiau yn anghyson ac mae cofrestrau risgiau yn anghyflawn yn aml, gan golli camau lliniaru cadarn. Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei reolaeth o risgiau ar lefel weithredol drwy:<br>• ddarparu hyfforddiant i reolwyr ar draws y strwythur gweithredol i'w galluogi i nodi'n glir y risgiau y maent yn gyfrifol amdanynt a | Ar y Gweill.<br>• Cwblhawyd cyfres o weithdai risg ar gyfer clinigwyr a rheolwyr, mewn sesiynau yn ymwneud ag arbenigedd, yng Ngrŵp Gwasanaeth Castell-nedd Port Talbot a Singleton tua diwedd yr haf. Roedd y sesiynau'n darparu hyfforddiant ar egwyddorion rheoli risgiau, trefniadau'r Bwrdd Iechyd a chyfle i gymhwyso hyn i gofnodion cofrestr risgiau lleol. Gwneir trefniadau i gyflwyno'r hyfforddiant i'r grwpiau gwasanaeth eraill yn ystod y ddau chwarter nesaf a bydd y cynnydd yn cael ei adrodd i'r Grŵp Rheoli | Medi 2022 | Y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| diweddaru cofrestrau risgiau yn unol â pholisïau corfforaethol; a<br>• sicrhau y creffir yn ddigonol ar gofrestrau risgiau, ar lefel weithredol ac yn y grŵp rheoli risgiau. | Risgiau a'r Bwrdd Rheoli. Cynhelir adolygiad grwpiau gwasanaeth hefyd, ac adroddir arno.<br>• Cytunwyd ar raglen o gyflwyniadau cofrestr risgiau grŵp gwasanaeth ar gyfer 2022 yng nghyfarfod y Grŵp Rheoli Risgiau ym mis Rhagfyr. Gofynnir i grwpiau gwasanaeth adrodd ar brosesau sydd ar waith i reoli a chraffu ar gofrestrau ar lefel leol, a chyflwyno eu cofrestrau gan ganolbwyntio ar eu risgiau pennaf. Bydd hyn yn dechrau o fis Mawrth 2022 a bydd y rhaglen wedi ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn galendr. | Rhagfyr 2022 | |
| **Datblygu cynllun archwilio clinigol**<br>A2 Yn ystod ein hadolygiad, nid oedd modd i ni gael copi o gynllun archwilio clinigol diweddaraf y Bwrdd Iechyd. Dylai'r Bwrdd Iechyd lunio cynllun archwilio clinigol ar gyfer 2021–22 sy'n | Wedi ei gwblhau.<br>Cytunwyd ar bolisi archwilio clinigol diwygiedig yn 2021, gyda fformat newydd ar gyfer strwythur archwiliadau (cenedlaethol, sefydliad, gwasanaeth a chyfarwyddiaeth). Cymeradwywyd y polisi gan y Pwyllgor Archwilio. Mae manylion y cynlluniau archwilio unigol yn cael eu coladu. Cynllun | Mawrth 2022 | Y Cyfarwyddwr Meddygol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| cwmpasu archwiliadau cenedlaethol mandadol ac archwiliadau lleol sy'n cael eu llywio gan feysydd risg. Dylai'r cynllun hwn gael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a dylid monitro'r cynnydd yn rheolaidd wrth ei gyflawni. | archwilio clinigol ar yr agenda ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ym mis Mai 2022 a bydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn ei fonitro dair gwaith y flwyddyn. | | |
| **Amlder adrodd ar archwiliadau a marwolaethau clinigol**<br>A3 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Canlyniadau ac Effeithiolrwydd Clinigol sy'n rhoi sicrwydd ar ganlyniadau archwiliadau a marwolaethau clinigol, ond ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo drwy'r Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch ac yn ei rinwedd ei hun, dim ond unwaith y flwyddyn y caiff ei hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a | Wedi ei gwblhau.<br>Ar raglen waith y pwyllgor. Adroddiadau mwy rheolaidd am farwolaethau ac archwiliad clinigol i'w adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch. | Mawrth 2022 | Y Cyfarwyddwr Meddygol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Diogelwch. Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu'r amlder hwn fel yr adroddir yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth gyflawni'r cynllun archwilio clinigol, a dysg gysylltiedig o adolygiadau marwolaethau i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn amlach. | | | |
| **Gwerthoedd ac ymddygiad**<br>A4 Mae gan y Bwrdd Iechyd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad sefydledig sy'n hybu diwylliant agored a dysgu, ond nid yw'r staff yn ymwybodol o'r gwerthoedd ac ymddygiad bob amser, ac mae rhai aelodau o staff nad ydynt yn cydnabod diwylliant sy'n hybu dysgu o wallau bob amser. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | Ar y Gweill.<br>Mae rhaglen ddiwylliant y Bwrdd Iechyd ar y gweill a fydd yn cynnwys archwiliad diwylliant. Bydd argymhellion archwilio (a a b) yn cael sylw yn rhan o'r gwaith hwn. | Rhagfyr 2022 | Y Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| • adnewyddu yr ymwybyddiaeth sefydliadol o'r fframwaith gwerthoedd ac ymddygiad, fel bod y gwerthoedd ar reng flaen popeth y mae'r staff yn ei wneud yn y Bwrdd Iechyd; ac<br>• ymgymryd â gwaith i ddeall pam mae rhai aelodau o staff yn teimlo nad yw'r Bwrdd Iechyd yn annog adrodd gwallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac nad yw'n gweithredu mewn ymateb i bryderon. | | | |
| **Adolygiad Arfarnu Perfformiad a Datblygu**<br>**Adolygiad Arfarnu Perfformiad a Datblygu**<br>A5 Canfu ein gwaith fod cydymffurfedd ag Adolygiadau Arfarnu Perfformiad a | Ar y Gweill.<br>Mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd, er bod pwysau'r gweithlu'n parhau'n uchel oherwydd bod prinder staff yn bryder. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd grŵp gwasanaeth lleol a'r | Medi 2022 | Y Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| Datblygu yn y grwpiau gweithredol a archwiliwyd gennym yn isel. Er ein bod yn cydnabod pwysau COVID-19 ar allu'r Bwrdd Iechyd i wella perfformiad yn y maes hwn, mae'r adolygiadau hyn yn agwedd bwysig ar ddatblygiad y staff. Dylai'r Bwrdd Iechyd sefydlu cynllun i wella perfformiad sy'n nodi pryd y gellir cyflawni cydymffurfedd yn llawn. Mae angen monitro'r cynllun hwn ar lefel y Gweithredwyr a'r pwyllgor. | Bwrdd Rheoli ac fe'i hadroddir i'r Pwyllgor Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. | | |
| **Dylunio gweithredol er mwyn cefnogi llywodraethu effeithiol**<br>A6 Er gwaethaf y gwaith o ddatblygu Fframwaith Ansawdd a Diogelwch ym mis Ionawr 2021, nid yw wedi ei gyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd eto. | Ar y Gweill.<br>Bydd y fframwaith yn cael ei adnewyddu yng ngoleuni gwersi o bandemig COVID-19, a chanfyddiadau'r adolygiad hwn/adolygiad mewnol ar lywodraethu ansawdd. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio i ddylunio cyfres o seminarau | Mehefin 2022 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion/Y Cyfarwyddwr Meddygol/Y |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| Mae'r fframwaith yn nodi'r broses a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd i sicrhau ei hun bod gwasanaethau o ansawdd uchel a'u bod nhw'n ddiogel i bawb. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>• adnewyddu'r fframwaith yng ngoleuni dysg o bandemig COVID-19;<br>• ail-lansio'r fframwaith, a rhoi eglurder ar y trefniadau llywodraethu ansawdd sydd i'w disgwyl yn y Bwrdd Iechyd; ac<br>• monitro cydymffurfedd â gweithredu'r fframwaith ar draws y sefydliad. | ansawdd a diogelwch a hwylusir yn allanol gyda'r nod o bwyso a mesur yn ogystal â:<br>• rhannu'r adolygiadau;<br>• deall safbwyntiau'r uwch-arweinwyr ar ansawdd a llywodraethu;<br>• diffinio beth fyddai Rhaglen gwella ansawdd yn ei chwmpasu (sicrwydd, gwelliant ac ati);<br>• dylunio'r dull gweithredu yr ydym yn dymuno ei fabwysiadu yn y Bwrdd Iechyd, a chynllunio/goruchwylio ei weithrediad — mae hyn yn cynnwys ail-lansio'r fframwaith;<br>• canolbwyntio ar swyddogaethau, cyfrifoldebau, atebolrwydd, a chanlyniadau;<br>• cysylltu â gofynion Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). | | Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd |
| **Sicrhau y derbynnir cyfrifoldeb ar y cyd am yr agenda ansawdd a diogelwch** | Wedi ei gwblhau.<br>Mae gan y tri gweithredwr clinigol gyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd, y gwaith ansawdd ac am hybu | Mehefin 2022 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- |
| A7 Canfu ein gwaith, er bod cyfrifoldeb ar y cyd am ansawdd a diogelwch ymhlith y tîm gweithredol, fod gorddibyniaeth ar nyrsys arwain i hybu'r agenda ansawdd mewn is-adrannau. Dylai'r Bwrdd Iechyd geisio sicrhau bod gweithwyr proffesiynol clinigol eraill yn y timau gweithredol yn cymryd swyddogaeth weithredol mewn trefniadau llywodraethu ansawdd. | hyn gyda'i gilydd. Maen nhw i gyd yn gyd-gadeiryddion y Grŵp Llywodraethu Ansawdd a Diogelwch newydd bellach. Hefyd, mae triwriaeth grŵp y gwasanaeth wedi bod yn gyfranogwyr gweithredol yn y gweithdai. | | Cleifion/Y Cyfarwyddwr Meddygol/Y Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddor Iechyd |
| **Adnoddau i gefnogi llywodraethu o ansawdd**<br>A8 Prin yw'r adnoddau corfforaethol i gefnogi llywodraethu o ansawdd ac mae adnoddau gweithredol yn gweithio ar wahân. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | Ar y Gweill.<br>Adolygu adnoddau a gofynion cyfredol i gefnogi'r dasg o wella ansawdd ar lefel gorfforaethol, y grŵp gwasanaeth ac ar lefel is-adrannol; i'w gwblhau ym mis Mawrth 2022. Bydd angen i hyn gysylltu â'r canlyniadau/allbwn o'r seminarau ansawdd a diogelwch, a manteisio ar y cyfle i ddatblygu adnoddau, timau a swyddogaethau, gan | Mehefin 2022 | Y Cyfarwyddwr Nyrsio a Phrofiadau Cleifion/Y Cyfarwyddwr Meddygol/Y Cyfarwyddwr |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr | Dyddiad cwblhau | Swyddog cyfrifol |
|---|---|---|---|
| • adolygu adnoddau a gofynion cyfredol i gefnogi'r dasg o wella ansawdd ar lefel gorfforaethol, grŵp gwasanaeth ac ar lefel rhanbarthol; a<br>• ceisio gwneud y mwyaf o botensial yr adnoddau gweithredol drwy ddatblygu cyfleoedd i ddod ag adnoddau at ei gilydd, naill ai drwy drefniadau rhwydwaith neu newidiadau mewn llinellau atebolrwydd. | ddod â nhw at ei gilydd. Erbyn hyn, cynhelir trafodaethau yn y tîm gweithredol ynghylch pa adnoddau sydd eu hangen. | | Therapïau a Gwyddor Iechyd |

# Atodiad 2

## Canfyddiadau arolwg y staff

**Arddangosyn 3: canfyddiadau'r arolwg staff**

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | Ddim yn gwybod | |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | | | | |
| 1. Gofalu am gleifion yw prif flaenoriaeth fy sefydliad | 26 | 33 | 13 | 4 | 2 | 1 | 79 |
| 2. Rwy'n fodlon ar ansawdd y gofal a roddaf i gleifion | 37 | 23 | 7 | 4 | 3 | 4 | 78 |
| 3. Mae digon o staff yn fy maes gwaith/ adran i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol | 13 | 16 | 16 | 18 | 14 | 2 | 79 |

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
| 4. Mae fy amgylchedd gwaith yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol | 20 | 27 | 16 | 8 | 6 | 2 | 79 |
| 5. Rwy'n cael diweddariadau rheolaidd ynghylch sylwadau cleifion am fy maes gwaith / adran | 9 | 21 | 17 | 15 | 15 | 2 | 79 |
| **Rheoli pryderon cleifion a staff** | | | | | | | |
| 6. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion | 19 | 40 | 12 | 5 | 1 | 3 | 80 |
| 7. Mae fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan staff | 8 | 28 | 19 | 15 | 8 | – | 78 |

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy’n cytuno neu’n anghytuno â datganiadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
| 8. Mae fy sefydliad yn annog staff i adrodd gwallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau | 14 | 39 | 13 | 6 | 6 | 2 | 78 |
| 9. Mae staff sy'n gysylltiedig â gwall, methiant agos neu ddigwyddiad yn cael eu trin yn deg gan y sefydliad | 8 | 21 | 26 | 6 | 2 | 17 | 80 |
| 10. Pan adroddir gwallau, damweiniau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, mae fy sefydliad yn gweithredu er mwyn sicrhau na fyddant yn digwydd eto | 8 | 28 | 20 | 5 | 3 | 16 | 80 |
| 11. Rhoddir adborth i ni am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, damweiniau a fu bron a digwydd a digwyddiadau a adroddir | 8 | 27 | 22 | 10 | 5 | 8 | 80 |

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | | Cyfanswm yr ymatebwyr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | Ddim yn gwybod | |
| 12. Byddwn yn teimlo'n hyderus pe bawn i'n codi pryderon ynghylch ymarfer clinigol anniogel | 12 | 36 | 16 | 5 | 6 | 3 | 78 |
| 13. Rwy'n hyderus bod fy sefydliad yn gweithredu ar bryderon ynghylch ymarfer clinigol anniogel | 12 | 30 | 24 | 8 | 2 | 3 | 79 |
| **Gweithio yn fy sefydliad** | | | | | | | |
| 14. Mae'r cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff yn effeithiol | 8 | 25 | 18 | 19 | 9 | 1 | 80 |
| 15. Mae fy sefydliad yn annog gwaith tîm | 14 | 39 | 16 | 7 | 2 | – | 78 |

| Datganiadau ynghylch agweddau | Nifer y staff sy'n cytuno neu'n anghytuno â datganiadau | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cytuno yn gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno yn gryf | Ddim yn gwybod | Cyfanswm yr ymatebwyr |
| 16. Mae gen i ddigon o amser yn y gwaith i gwblhau unrhyw hyfforddiant statudol a gorfodol | 6 | 23 | 14 | 26 | 11 | – | 80 |
| 17. Mae'r trefniadau cynefino ar gyfer staff newydd a dros dro (e.e. staff asiantaeth/locwm/banc/staff a adleolir) yn fy maes gwaith/adran yn cefnogi gofal diogel ac effeithiol | 7 | 26 | 22 | 8 | 8 | 9 | 80 |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.